Kathy Riddick

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwy'n llywodraethwr ysgol, yn aelod o fwrdd Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr, ac yn rheoli gwirfoddolwyr bugeiliol ac addysgol ledled Cymru. Rwy'n frwd ynghylch llywodraethu da, cydraddoldeb a'r angen i barchu a gwrando ar bob llais. Mae gwirfoddoli yn caniatáu i gymunedau ffynnu, yn galluogi pobl o wahanol gefndiroedd i weithio gyda'i gilydd at nod cyffredin ac ymdeimlad o ddiben. Gallu helpu pobl nad ydym yn eu hadnabod sydd wrth wraidd ein dynoliaeth. Mae gennyf brofiad helaeth o wirfoddoli mewn rolau amrywiol. Rwy'n credu'n gryf fod llywodraethiant ac eiriolaeth dda yn hanfodol i alluogi cymuned wirfoddoli gref, sy'n rhoi cymaint o gymorth i'n cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gennyf brofiad o fod yn aelod o fwrdd ac o weithio gydag amrediad o randdeiliaid, a byddaf yn parhau â'm gwirfoddoli fy hun er mwyn dod â'r wybodaeth a'r arbenigedd hynny i rôl ymddiriedolwr.